

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y **Cyfarfod Blynyddol** ar yr 9fed o Fai 2022 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma a trwy Zoom.

Cynghorwyr yn bresennol: Arwyn Jones (Cadeirydd), John Phillips, Ambrose Lewis, Andrew Jones, Ann Sillars, Eirian Howells, Alyson Harries, Linda Davies, Derrick Harries, Dyfed Davies & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

Wrth gyrraedd y cyfarfod, gofynnwyd i bob Cynghorydd cwblhau Datganiad Derbynn Swydd yn dilyn yr Etholiadau Lleol diwrthwynebiad ar y Sed o Fai 2022.

Sylwadau'r Cadeirydd:

Agorodd Arwyn Jones y cyfarfod drwy longyfarch pawb a diolch i'r Cynghorwyr a'r Clerc am fynychu ac am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Dymunodd pob llwyddiant i'r Cadeirydd newydd. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sir Jean Lewis ar ei llwyddiant yn yr etholiadau diweddar i'w hail-ethol ac am ei gwaith dros y pum mlynedd olaf. Dymunodd Arwyn Jones i Ambrose Lewis, a ymunodd drwy zoom gan ei fod yn hunan-ynysu, pob llwyddiant yn y llawdriniaeth roedd ar ffin dderbyn.

1. **Apwyntio Cadeirydd:** Cynigwyd yn unfrydol for Mr John Phillips yn ymgymryd a'r swydd am y flwyddyn i ddod. Cymherodd John Phillips y gadair â chymrodd y cyfle i ail-gyfleu ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Sir Jean Lewis a dymuniadau gorau i Ambrose Lewis. Diolchodd i Arwyn Jones am ei waith ardderchog dros y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd i'r clerc am ei gwaith.
2. **Apwyntio Is-Gadeirydd:** Cynigwyd yn unfrydol Mr Derrick Harries fod yn Is-Gadeirydd ac fe'i dderbyniodd.
3. **Dim ymddiheuriadau absennoldeb**
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Darllenwyd cofnodion y cyfarfod o'r 21ain o Fawrth 2022, fe'i cytunwyd a'i llofnodwyd fel cofnod cywir.

5. Llofnodwyr Cyfrif Banc – Cadarnhaodd y clerc mae y llofnodwyr presennol oedd Mr Ambrose Lewis, Mrs Alyson Harries, Mr Andrew Jones ac y clerc. Roedd angen dau berson i lofnodi. Cytunwyd i gadw yr un llofnodwyr. Awdurdodwyd y clerc i wneud trosglwyddiadau uniongyrchol ar y system bancio ar-lein am daliadau a oedd wedi cael eu hawdurdodi yn y cyfarfodydd.

6. Priso asedau – Roedd cadwyn y cadeirydd eisioes wedi ei brisio yn £2944. Cytunwyd i gadw yr un gwerth.

7. Derbynn y cyfrifon – Trafodwyd y cyfrifon roedd wedi cael eu archwilio ac fe'u cafwyd yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ac y Clerc. Cytunwyd i lofnodi'r Ffufen Archwilio Blynyddol ar sail y cyfrifon a dderbyniwyd.

8. Derbynn Cyllideb 2022-2023 – Trafodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ac fe'i cytunwyd.

9. Cyflog y Clerc – Trafodwyd cyflog y clerc a cytunwyd i'w godi i £5800.00 y flwyddyn, Byddai'r taliadau yn parhau yn fisol. Cytunwyd hefyd i brynnu argraffydd ar gyfer ddefnydd y clerc.

10. Asesiad Risg 2022-2023 – Adolygiwyd yr asesiad ac fe'i dderbyniwyd.

11. Rheolau Cyllid y Cyngor – Cytunwyd i dderbyn y Rheolau ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

12. Cofnod diddordeb y Cyngorwyr – Roddodd y clerc wybod i'r Cyngorwyr byddai angen iddynt gwblhau cofnod newydd a'u dychwelyd i'r clerc.

13. Unrhyw Fusnes Arall

- Dosbarthodd y clerc y Ffurflen Optio Allan am y Lwfans Cyngorwyr o £150 am y flwyddyn 2022-2023 os and oeddent am ei dderbyn.
- Roedd y Cyngorwyr eisioes wedi derbyn copi o'r Adroddiad Blynyddol arfaethedig. Cytunwyd i dderbyn a chyhoeddi'r adroddiad.
- Roedd y clerc wedi bod yn edrych i mewn i gyfleoedd hyfforddi yn unol a'u cynllun hyfforddiant. Byddai'r clerc yn trafod gyda'r Cyngorwyr yn unigol y cyfleoedd.

Cymherodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis y cyfle i ddiolch y Cyngorwyr am eu cefnogaeth dros y pum mlynedd olaf a dros chyfnod yr ymgyrch etholiadol gan ymrwymo i wneud eu gorau glas dros y cymunedau roedd yn eu cynrychioli. Diolchodd Jean y cyn-gadeirydd ac y clerc am eu gwaith a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd John Phillips y Cynghorydd Sir Jean Lewis, a fynychodd drwy Zoom, am ei geiriau caredig, gwaith called ac yr ymrwymiad roedd yn ei ddangos i'w etholwyr.

Terfynwyd y cyfarfod am 8.45yh.